

## **Cyngor Cymuned Llanelian (281)**

Cofnodion cyfarfod Nos Fawrth Tachwedd 8, 2016 a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Penysarn am 7yh.

**Presennol:** Glenys Jones, Hefina Williams, John Griffiths, Dafydd Griffiths, Carol Whitaker, Helen Hughes, David Gerrard, Cyng Wil Hughes

**Ymddiheuriadau:** Thomas Jones, Elfyn Hughes, Gordon Hayes, Cyng Aled M Jones, Cyng Richard Jones

### **1 Croeso**

Cadeiriwyd y cyfarfod gan Dafydd Griffiths ac fe groesawyd pawb i'r cyfarfod.

### **2 Datgan Diddordeb**

Cyng Wil Hughes – materion cynllunio

### **3 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf**

Derbyniwyd y cofnodion yn gywir Cynnig Hefina Williams, eilio John Griffiths.

### **4 Materion yn Codi o'r Cofnodion**

#### **4.1 Swyddfa Bost**

Daw ymateb gan y Swyddfa Bost yn ymddiheuro am ddiffyg cysondeb yr oriau agor yn ystod yr wythnosau diwethaf. Nodwyd mai problemau staffio oedd ar fai ac fe gafwyd cadarnhad bod rhywun newydd erbyn hyn yn gyfrifol o gynnig y gwasanaeth. Cafwyd gadarnhad hefyd bydd swyddogion lleol yn monitor argaeledd y gwasanaeth a sicrhau ei fod yn ddibynadwy ac yn gyson. Roedd yr aelodau yn ddiolchgar iawn o'r newyddion.

#### **4.2 Lon yr Ysgol**

Cafwyd ebost gan Dewi Williams (CSYM) yn cadarnhau bod peth gwaith wedi cymryd lle y tu allan i'r ysgol rhai blynyddoedd yn ol er mwyn sicrhau bod plant yn gallu cerdded i'r ysgol yn diogel. Nodwyd hefyd bod arolwg yn 2016 yn cadarnhau nad oedd problem gor-yrru ar y lon. Fe gadarnhaodd fodd bynnag bod ei beirianydd wedi archwilio'r arwyddion ffordd ger yr ysgol ac wedi trefnu iddynt gael eu ail-wneud.

Nid oedd yr aelodau yn fodlon a'r ymateb ac yn bryderus iawn am ddiogelwch plant (a'u rheini). Fe ofynnwyd i Cyng Wil Hughes drafod tri pwynt gyda'r swyddogion perthnasol yn CSYM:

- 1) Arwydd
- 2) Croesfan
- 3) Clawdd gyferbyn a'r ysgol

#### **4.3 Enwau Tai**

Mae Hefina Williams am gysylltu a'r Stad am ddiweddariad.

#### **4.4 Rhos Newydd**

Cafwyd ebost gan Iwan Jones yn datgan nad oedd camau pellach wedi'w cymryd ynglyn a Rhos Newydd. Cadarnhaodd nad oedd yr ymgweiswyr wedi apelio yn erbyn penderfyniad CSYM i wrthod y cais. Cadarnhaodd hefyd nad oedd rhybydd gorfodaeth wedi ei gyhoeddi. Cytuno cysylltu a'r adran gynllunio i nodi siom am beidio a delio a'r mater ynghynt a gofyn am amserlen yn dynodi pa bryd fydd gwahanol agweddau o'r broses gorfodaeth yn cael eu cwblhau. Cytuno anfon copi hefyd at Cyng Aled Jones er gwybodaeth.

#### **4.5 Arwydd**

Mae'r arwydd wedi ei baentio erbyn hyn. Nodwyd siom fodd bynnag bod perchennog y ty wedi gosod arwydd 'ar werth' ynghlwm ar yr arwyddbost.

#### **4.6 Ceir wedi'w Gadael**

Deallwyd bod rhai ceir wedi'w symud erbyn hyn. Mae'r swyddog wedi gwneud ymholiadau gyda'r DVLA ac mae rhybyddion wedi'w dosbarthui berchnogion y ceir yn datgan bod rhaid

iddynt eu trwyddedu neu eu symud oddi ar y briffordd. Cytuno cysylltu eto am ddiweddariad pellach.

#### **4.7 Cronfa Ty Moel Isaf**

Mae disgwyl ymateb gan Un Llais Cymru (NALC) am gyngor sut fyddai orau i reoli a diogelu arian y ddiweddar Mrs Mair Morris er budd y gymued. Mae'r mater wedi ei gyfeirio at dim cyfreithiol arbennigol NALC.

#### **4.8 Fideo'r Ombwdsmon**

Cafwyd cyfle i bawb oedd yn bresennol wyllo'r fideo ac arwyddo eu bod wedi gwneud hynnu.

#### **4.9 Golau'r Neuadd**

Cadarnhawyd bod llythyr wedi ei anfon at Alan Phillips ond nad yw wedi bod mewn cysylltiad. Cytuno anfon copi o'r llythyr ato eto.

#### **4.10 Wylfa Newydd**

Bydd Richard Foxhall (Horizon) yn ymuno a'r Cyngor ym mis Rhagfyr.

### **5 Cynllunio**

#### **5.1 Ceisiadau**

Roedd dau gais i'w trafod:

- Bungalow, Pengorffwysfa (24C337) – cefnogi
- Tan Bryn, Dulas (24/C/297A/VAR) – dim sylw

#### **5.2 Penderfyiadau**

Nodwyd penderfyniadau CSYM ar y ceisiadau canlynol:

- Bod Hyfryd, Ffordd Llanelian (24C335) – gwrthod
- Nid oes angen caniatad cynllunio ar gyfer ychwanegiadau i'r mast yn Nebo.

### **6 Materion Ariannol**

#### **6.1 Taliadau**

Cymeradwywyd y taliadau canlynol:

£25.00 Poppy Appeal (torch)

£64.20 HMRC (PAYE)

£257.72 Cyflog Hydref

£825.00 (ad-daliadau llithrfa 33 x £25)

#### **6.3 Ceisiadau am Arian**

Dim

### **7 Cytundeb y Clerc**

Daw ymateb gan Un Llais Cymru yn cadarnhau eu bod ar hyn o bryd yn edrych ar baratoi canllawiau i gynghorau llai gan bod y mwyafrif o'rddogfen fodel yn statudol ac felly nad oedd modd ei ddileu. Cytuno aros nes derbyn y canllawiau a thrafod ymhellach pryd hynnu.

### **8 Llithrfa**

Mae'r ad-daliadau wedi eu talu erbyn hyn. Dychwelwyd 33 o'r 45 goriadau yn ol cyn y dyddiad cau. Mae disgwyl i gyfarfod y Bartneriaeth llithrfa gymryd lle nos Fawrth neu Fercher 29/30 Tachwedd yn ddibynnol ar argaeledd y Neuadd a'r Warden (CSYM).

### **9 Gohebiaeth**

9.1 Clerks and Councils Direct – Rhifyn diweddaraf

9.2 Fforwm Mynediad Lleol Ynys Mon – gwahoddiad gan CSYM i enwebu unigolun i fod yn aelod o'r fforwm.

9.3 BT – ymgynghoriad ar ddiddymu blychau ffon yn y gymuned. Gwrthwynebir diddymu y ddau ffon:

- 1) Ger y Traeth – signal gwael iawn ar ffon symudol ac felly ei angen mewn argyfwng
- 2) Sgwar Penysarn – unigiolion yn parhau i'w ddefnyddio

9.4 Grid Cenedlaethol – nodyn atgoffa bod yr ymgynghoriad yn parhau nes 16/12/2016. Pwylsleiswyd y pwysigrwydd o ymateb fel unigolion yn ogystal ac fel mudiadau a chyrff megis y Cyngor. Teimlai rhai oedd yn bresennol bod y Grid yn gwahaniaethu rhwng trigolion yr ynys a bod rhaid gwarchod yr ynys i'r dyfodol. Mae'n debyg bydd Cyngor Cymuned Rhosybol yn trefnu cyfarfod cyhoeddus yn fuan.

## **10 Unrhyw Fater Arall**

- 10.1 Cyfarfod Cyhoeddus Amlwch 20/10/2016 – Cafwyd grynodedb gan Hefina Williams o'r cyfarfod a gynhaliwyd yng Ngwesty'r Dinorben i drafod pryderon ynglyn a Wylfa Newydd. Gobeithir bydd cyfarfod pellach gyda'r swyddogion perthnasol yn y dyfodol agos.
- 10.2 Baw Cwn – Nodwyd bod pobl yn cwyno ar facebook am faw cwn yn y cae chwarae ac ar y palmentydd ger yr ysgol, Stryd y Capel a hefyd Lon Tyddyn Waen. Cadarnhaodd y Clerc ei bod eisioes wedi dwyn y mater i sylw'r warden gwn.
- 10.3 Aberfan – Cafwyd wybod bod aelodau o Glwb Ieuenctid Penysarn wedi ymweld a'r pentref ac wedi bod yn rhan o'r digwyddiadau cofio ddiweddar.
- 10.4 Hysbysfwrdd – fe ofynnodd y clerch os byddai posib cael hysbysfwrdd newydd gan fod yr un presennol wedi ei ddifrodi. Trafodwyd y posibilrwydd o osod bwrdd ar wal y siop gan y byddai yn fwy amlwg i drigolion y pentref. Y clerch i wneud ymholiadau. Byddai gosod hysbysfwrdd ar wal y Neuadd Bentref hefyd yn opsiwn posib.

## **11 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

Bydd y cyfarfod cyffredin nesaf Rhagfyr 6, 2016.

Bu'r cyfarfod orffen am 8.20 o'r gloch

**Arwyddwyd**  
**Dafydd Griffiths**  
**Cadeirydd**

CET11/2016